


laith fyw: iaith byw

Strategaeth y Gymraeg 2012–17



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad blynyddol 2016–17



laith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–17 Adroddiad blynyddol 2016–17

Cynulleidfa

Adrannau Llywodraeth Cymru; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau y sector preifat yng Nghymru; sefydliadau addysgol yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, a chymunedau; a phartïon eraill â diddordeb.

Trosolwg

Er mwyn cyflawni gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006 lansiwyd *laith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–17* ym mis Ebrill 2012. Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyhoeddi adroddiad blynyddol i fonitro cynnydd yn erbyn Strategaeth y Gymraeg.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Uned y Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2080 1307

e-bost: UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ygymraeg

Dogfennau cysylltiedig

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh

laith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–17 (2012)

gov.wales/docs/dcells/publications/122902wls201217cy.pdf

laith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen – Datganiad polisi (2014)

gov.wales/docs/dcells/publications/140806-living-language-moving-forward-cy.pdf

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010)

llyw.cymru/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategy.pdf

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: y camau nesaf (2016)

gov.wales/docs/dcells/publications/160309-next-steps-cy.pdf

laith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–17: Cynllun Gweithredu 2016–17 (2016)

gov.wales/docs/dcells/publications/160315-wl-action-plan-cy.pdf

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	2
1. Y Gymraeg a'r economi	3
2. Gwell cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg	7
3. Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned	13
4. Newid ymddygiad ieithyddol	17
Atodiad 1: Dangosyddion Strategaeth y Gymraeg	20
Atodiad 2: Targedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg	37

Rhagair y Gweinidog

Mae'n bleser gen i gyhoeddi'r adroddiad blynyddol hwn ar yr hyn a wnaethom mewn perthynas â blwyddyn lawn olaf strategaeth *iaith fyw: iaith byw* (2012-17) a'r blaenoriaethau a nodwyd yn natganiad polisi *Bwrw Mlaen*, y ddogfen a roddodd ffocws i 3 blynedd olaf y strategaeth honno.

Mae'r cyfnod dan sylw, sef Ebrill 2016 i Fawrth 2017, yn un lle gwelwyd un strategaeth yn tynnu at ei therfyn a gwaith ar y strategaeth nesaf, gyda'i tharged o filiwn o siaradwr, yn dechrau. Ac oherwydd y ffocws dros y flwyddyn ddiwethaf ar ddatblygu, cyhoeddi a dechrau gweithredu strategaeth newydd *Cymraeg 2050*, mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi gweld golau dydd ychydig yn hwyrach nag y byddem yn ei ddymuno. Serch hynny, weithiau o edrych yn ôl y mae modd edrych ymlaen, ac mae'r adroddiad hwn yn sicr yn gyfle i gymryd stoc a dangos sut y gwnaethom baratoi'r tir ar gyfer ein strategaeth newydd.

Nid datblygu'r strategaeth oedd ein hunig ffocws yn ystod y cyfnod dan sylw. Ym maes deddfwriaeth, er enghraifft, fe wnaethom barhau gyda'r rhaglen dreigl o greu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg. Dechreuwyd hefyd ar y gwaith angenrheidiol o ymgysylltu cynnar anffurfiol wrth i ni fwrw ati i geisio diwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a hynny er mwyn sicrhau bod sylfaen deddfwriaethol yr iaith yn addas at y dyfodol ac yn cyd-fynd ag uchelgais *Cymraeg 2050*.

Ym maes addysg, aethom ati i gryfhau'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. I'r perwyl hwnnw, penodwyd Aled Roberts i adolygu cynlluniau strategol bob sir ac argymhell sut i ddatblygu'r broses.

Ceir rhagor o wybodaeth yng nghorff yr adroddiad ynghylch ein gwaith o safbwynt datblygu cymorth i fusnesau, sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle, yr economi ddigidol, datblygiadau mewn perthynas â'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned, a'r Grantiau Hybu a Hyrwyddo'r Defnydd o'r Gymraeg. Gwnaethom barhau hefyd gyda'n gwaith arloesol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ar hyd a lled Cymru a thu hwnt, gan ddatblygu ac ymestyn ymgyrch Dydd Miwsig Cymru yn ystod ail flwyddyn yr ŵyl. Parhau hefyd wnaeth ein hymdrechion i farchnata'r iaith a newid ymddygiad ieithyddol. Bydd yr holl bethau hyn yn hoelion wyth yn ein strategaeth newydd.

Mewn cyfnod o gyni ariannol, bu modd i ni gyhoeddi £5 miliwn o wariant ychwanegol ar y Gymraeg ar gyfer 2017-18. O ystyried yr ansicrwydd sy'n parhau ynghylch Brexit a'r effeithiau posibl ar y pwrs cyhoeddus, roedd hyn yn dystiolaeth bellach ein bod o ddifrif am ein gweledigaeth ar gyfer yr iaith. Wrth reswm, gydag effeithiau Brexit yn treiddio i bob un o weithgareddau'r llywodraeth, byddaf yn cadw golwg ar y sefyllfa yng nghyd-destun yr iaith a'n targed o filiwn o siaradwyr.

Rhaid i mi ddiolch hefyd i fy rhagflaenydd fel Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Alun Davies AC, am arwain a thywys y gwaith yn yr adroddiad hwn yn ei flaen. Bu cyfnod strategaeth *iaith fyw: iaith byw* yn un o drawsnewid rôl a safle'r Gymraeg yng Nghymru. Fy nod yw adeiladu ar y sylfeini cadarn hyn er mwyn gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer yr iaith, gan sicrhau ein bod yn bwrw ati'n bwrpasol i weithredu'r strategaeth newydd.

1. Y Gymraeg a'r economi

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu'r amgylchedd gorau posibl er mwyn meithrin twf y Gymraeg a datblygiad economaidd wrth i'r naill hybu'r llall. Cydnabyddir yn *Bwrw Mlaen* fod twf economaidd, swyddi, creu cyfoeth a lles y Gymraeg yn mynd law yn llaw â'i gilydd, a bod angen helpu busnesau i fanteisio ar y gydberthynas hon. Mae Llywodraeth Cymru am weld mwy o fusnesau yn gweithredu'n ddwyieithog ac yn adnabod gwerth y Gymraeg. Yn ogystal, rydym yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg yn yr economi ddigidol.

Y Gymraeg a'r economi oedd un o brif themâu Bwrw Mlaen yn sgil ymrwymiad ym Maes Strategol 3 (Y Gymuned) *iaith fyw: iaith byw*, sef strategaeth y Gymraeg ar gyfer 2012-17 i roi sylw i'r cysylltiadau rhwng y Gymraeg a'r economi. Adroddir isod ar weithgareddau yn ystod 2016-17, sydd hefyd yn cwmpasu Maes Strategol 4 (Y Gweithle), Maes Strategol 5 (Gwasanaethau Cymraeg) a Maes Strategol 6 (Seilwaith) a nodir yn *iaith fyw: iaith byw*.

Cymorth i fusnesau

Am fod economi ffyniannus yn hollbwysig i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu yn lleol, yn natganiad polisi *Bwrw Mlaen* a strategaeth *iaith fyw: iaith byw* rhoddom bwyslais ar botensial y Gymraeg yn y sector preifat i gefnogi datblygiad economaidd yn lleol. O gydnabod y gydberthynas hon, daeth Llywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg a'r Mentrau Iaith ynghyd i ddatblygu a pheilotu adnodd ar gyfer busnesau, sef "Y Pecyn Busnes". Ceir rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn ym Mhennod 4 yr Adroddiad hwn, sy'n ymdrin â Newid Ymddygiad.

Er mwyn datblygu ymhellach y cymorth sydd ar gael i fusnesau, yn ystod 2016-17 fe wnaethom hefyd ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu pwynt cyswllt canolog (ar ffurf llinell gymorth) i helpu busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg. Cyhoeddwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor i ddatblygu'r pwynt cyswllt hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2017-18, ac yn sgil dyrannu £2m ychwanegol i gyllideb y Gymraeg yn 2017-18, bydd y gwaith yn destun datblygu dros y cyfnod strategol nesaf.

Yn ogystal â chynnal cyfres o ddigwyddiadau i hyrwyddo manteision y Gymraeg mewn busnes a'r gweithle, datblygwyd cwrs hyfforddiant ar-lein i fusnesau ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith. Ni chafodd y cwrs ei hun ei lansio yn ystod y cyfnod adrodd yn sgil datblygiadau pellach i'r gwaith a'r cymorth oedd ar gael i fusnesau trwy'r Pecyn Busnes.

Yn ystod 2016-17 hefyd gwelwyd gweithgareddau Busnes Cymru'n dod yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg. Drwy hyn a thrwy gydweithio agos rhwng Busnes Cymru ac is-adran y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru, gwelwyd rhagor yn cael ei wneud i dynnu sylw busnesau at y Gymraeg, buddion economaidd yr iaith i fusnesau, ac i hyrwyddo darpariaeth Gymraeg Busnes Cymru.

Wrth gwrs, mae cynllunio tir, cynllunio gwlad a thref, a chynllunio datblygiadau mawr yn elfennau allweddol yn y berthynas rhwng y Gymraeg a'r economi hefyd, a gall y rhain wneud gwahaniaeth mawr i broffil daearyddol a demograffig yr iaith. Ymdrinnir â'r rhain, yn ogystal â rheoliadau safonau'r Gymraeg, sydd â'r potensial i sicrhau safle'r Gymraeg yn y gweithle, yn ail bennod y ddogfen hon – Gwell cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg.

Sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle

Un o amcanion *Bwrw Mlaen* oedd sicrhau gwell alinio rhwng y Gymraeg a rhaglenni hyrwyddo sgiliau Llywodraeth Cymru, gan ysgogi hyfforddiant a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg a hyfforddiant i ddysgu Cymraeg.

Yn ystod 2016-17, parhaodd y cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y sector dysgu seiliedig ar waith. Gosodwyd targedau hefyd yng nghontractau'r brif ffrwd dysgu seiliedig ar waith ar gyfer dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn sectorau penodol, gan gynnwys iechyd, gofal plant, amaethyddiaeth ac adeiladu.

I ategu'r targedau ar gyfer contractau'r brif ffrwd, ym mis Ionawr 2017 lanswyd rhaglen newydd Cynnydd ar gyfer Llwyddiant yn y sector gofal plant, lle mae targedau penodol ar gyfer darparu prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Y nod yn hyn o beth yw sicrhau bod gweithwyr gofal plant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn cael cyfleoedd i gynnal a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Rydym yn parhau i gydweithio â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddatblygu'r dystiolaeth ynghylch yr angen am sgiliau Cymraeg yn y gweithlu. Yn seiliedig ar adroddiadau diweddaraf y tair Partneriaeth (a gyhoeddwyd yn ddiweddarach ym mis Awst 2017), bydd yr wybodaeth hon yn dylanwadu ar gynllunio a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y sector ôl-16 yn y cyfnod sydd i ddod.

Nod arall yw sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth werthuso rhaglenni sgiliau, a bod y canfyddiadau'n cyfrannu at weithredu'r rhaglenni cyfredol. I'r perwyl hwnnw, yn ystod 2016-17 cynhaliwyd nifer o werthusiadau lle'r oedd y Gymraeg a datblygu sgiliau Cymraeg yn rhan o'r gwerthuso. Cyhoeddwyd y gwerthusiadau ar wefan y Llywodraeth, a chafodd yr argymhellion eu hystyried wrth ddatblygu cynlluniau busnes ar gyfer rhaglenni newydd, ac i ysgogi trafodaeth ynghylch sut i wella'r ddarpariaeth bresennol.

Wrth weithredu er mwyn sicrhau lle amlycach i'r Gymraeg yn y gweithle, cynhaliom sesiynau i amlygu pwysigrwydd sgiliau Cymraeg ym myd busnes ac yn y gweithle. I'r perwyl hwn, ym mis Medi 2016 cynhaliwyd Y Sgwrs Go lawn ar y Gymraeg yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd. Bu'r digwyddiad yn gyfle i ddisgyblion a chyflogwyr ddod ynghyd i drafod y manteision a'r cyfleoedd sydd ynghlwm wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac mewn busnes.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, parhaodd Llywodraeth Cymru i ddangos ei hymrwymiad i ddatblygu sgiliau Cymraeg yn y gweithle er mwyn galluogi staff i gynnig gwasanaethau Cymraeg. Mae rhagor o wybodaeth am y Gymraeg, a Safonau'r Gymraeg, yn Llywodraeth Cymru i'w chanfod yn y bennod nesaf.

Y Gymraeg a'r economi ddigidol

Mae'r economi digidol yn hollbwysig i'r Gymraeg, a'n nod yw sicrhau lle amlwg i'r iaith ar draws y cyfryngau digidol. Rydym felly wedi blaenoriaethu cydweithio â sefydliadau masnachol a chyrrff academaidd i hwyluso'r gwaith o ddatblygu adnoddau digidol newydd i'r iaith, er enghraifft geiriaduron, adnoddau dadansoddi testun, technolegau lleferydd ac adnoddau cyfieithu sy'n hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys darbwyllo a gweithio gyda chysylltiadau perthnasol i annog a chefnogi corfforaethau rhyngwladol i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg wrth ddatblygu cynnyrch newydd.

Yn ystod 2016-17, bu i'n perthynas gyda'r Rhwydwaith Ewropeaidd i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD) a rhwydwaith y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig barhau. Buom hefyd yn trafod y datblygiadau diweddaraf gyda chynrychiolwyr prifysgolion Caeredin, Lancaster a Dulyn, gan gynnwys trafod technoleg yng nghyd-destun ieithoedd lleiafrifol yn ystod cyfarfod Gweinidogol yng Nghaeredin.

O safbwynt lobïo a gweithio gyda chorfforaethau rhyngwladol, ymysg y cwmnïau y buom mewn trafodaethau â hwy oedd Microsoft, Google, Twitter, a Wikimedia UK. Buom hefyd mewn trafodaeth â'r Gymdeithas Frenhinol.

Rhan bwysig arall o'n gwaith yw buddsoddi mewn prosiectau seilwaith er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn technoleg. Mae hyn yn golygu gwneud y defnydd gorau posib o'n buddsoddiad yn yr iaith, fel y gall cymaint o siaradwyr Cymraeg â phosibl elwa ar ein buddsoddiad mewn technoleg. Yn hyn o beth fe wnaethom gyllido addasiad Cymraeg o'r meddalwedd agored MaryTTS (sy'n ynganu testun Cymraeg ar lafar), Kaldi (i ddechrau datblygu llais i destun Cymraeg) a Prosodylab Aligner (sy'n alinio trawsgrifiad gyda'r ffynhonnell sain).

Rydym am weld adnoddau iaith yn datblygu ymhellach ar gyfer eu haildefnyddio mewn rhaglenni eraill. Enghraifft o hyn yw geiriaduron o dan drwydded agored, a bellach mae adnodd TermCymru Llywodraeth Cymru ar gael ar META-Share dan drwydded agored, a bydd gwaith yn y maes yn parhau yn y dyfodol. Enghraifft arall yw offer dadansoddi testun, e.e. dadansoddi semantig awtomatig, parswyr a pheiriannau tagio, ac mae Uned Technolegau Iaith Prifysgol Bangor wedi datblygu a rhyddhau rheolau ynganu Cymraeg. Rydym wedi rhoi ail grant i Brifysgol De Cymru i ddadansoddi testun Cymraeg, ac rydym yn rhan o brosiect CorCenCC a fydd yn datblygu rhagor o adnoddau tebyg.

Rydym hefyd yn hyrwyddo aildefnyddio cyfieithiadau, cyfieithu peirianyddol ac awtomeiddio cyfieithu ar gyfer ôl-olygu a rheoli ansawdd gan fodau dynol, fel y gellir sicrhau bod mwy o Gymraeg yn y dirwedd ieithyddol. Byddwn yn datblygu'r maes hwn ymhellach yn y blynyddoedd nesaf.

Yng nghyd-destun technolegau lleferydd, er enghraifft teipio lleferydd-i-destun, nid oes technoleg llais-i-destun na system arddweud llwyr ar gael eto yn Gymraeg, ond rydym yn llawn sylweddoli pwysigrwydd y gallu hwn. O'r herwydd gwnaethom ddyrannu grantiau i Uned Technoleg Iaith Prifysgol Bangor ehangu eu gwaith adnabod lleferydd ac i gyfuno hyn â chyfieithu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial i

greu cynorthwy-ydd personol o'r enw Macsen, sy'n gallu adrodd yr amser, crynhoi'r newyddion ac ambell ei sgil arall.

2. Gwell cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg

Sicrhau lle amlycach i'r Gymraeg yn agenda'r llywodraeth ac agendâu awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill oedd y brif her a nodwyd ar gyfer yr adran hon yn *Bwrw Mlaen*. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwbl allweddol ar gyfer cyflawni'r newid sylweddol hwn. Bydd pontio'r bwch rhwng addysg a'r gweithlu drwy gynnwys y Gymraeg yn ein rhaglenni sgiliau hefyd yn bwysig iawn.

Heb os un o'r heriau allweddol yw troi ewyllys da tuag at yr iaith yn weithredu pendant, gan sicrhau fod buddiannau'r Gymraeg yn rhan annatod o waith y sector cyhoeddus. Cwmpasir yn yr adran hon ymdrechion i wella cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg, sy'n cyfrannu at feysydd strategol y gymuned (3), y gweithle (4), gwasanaethau (5) a'r seilwaith (6) a nodir yn strategaeth *iaith fyw: iaith byw*, yn ogystal â chyfrannu at ddatblygiadau ym maes addysg cyfrwng Cymraeg.

Cynllunio at y dyfodol

2016-17 oedd blwyddyn olaf strategaeth 5 mlynedd *iaith fyw: iaith byw* (2012-17) a'r datganiad polisi *Bwrw Mlaen* (2014-17). Er mwyn paratoi at y dyfodol, ar 1 Awst 2016 lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ddrafft cychwynnol o'i strategaeth nesaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni. Roedd y ddogfen hon yn gosod allan ein gweledigaeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac yn cynnig y camau strategol fyddai angen eu cymryd er mwyn gwireddu hynny.

Yn wahanol i strategaethau blaenorol Llywodraeth Cymru, roedd y strategaeth ddrafft yn cydnabod bod cynllunio ieithyddol yn ddisgyblaeth hirdymor, ac esboniwyd y meysydd lle byddai angen gweithredu dros y tymor hir er mwyn cyrraedd y targed. Gan hynny, yn y strategaeth ddrafft cynigiwyd amcanion o dan y chwe maes datblygu canlynol:

- 1: Cynllunio a pholisi iaith
- 2: Normaleiddio
- 3: Addysg
- 4: Pobl
- 5: Cefnogi
- 6: Hawliau

Nodwyd mai gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer y flwyddyn 2050 oedd bod yr "*iaith Gymraeg yn ffynnu, gyda nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn. Mae'n naturiol ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd, ac ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati a gwerthfawrogiad o'i chyfraniad diwylliannol ac economaidd*".

Er yn cydnabod yr angen i gynllunio a gweithredu dros y tymor hir i gyrraedd y nod, roedd y strategaeth ddrafft hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd gweithredu yn y tymor

byr. Gan hynny, amlinellwyd meysydd gwaith posibl ar gyfer pum mlynedd cyntaf y strategaeth newydd, ac ymgynghorwyd ar y manau y dylid blaenoriaethu yn y tymor byr.

Wrth ymgynghori ar y weledigaeth, yn ogystal â chyhoeddi dogfen ymgynghori swyddogol a oedd yn gofyn cwestiynau penodol, defnyddiwyd llu o ddulliau gwahanol mewn ymgais i ddenu ymatebion gan gynulleidfaoedd amrywiol (gan gynnwys ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc, fersiwn hawdd ei deall, cyfarfodydd gyda phartneriaid a rhanddeiliaid, cydweithio gyda SAYSOMETHINGINWELSH, grwpiau ffocws, a Chylchoedd Ti a Fi).

Rhan arall o'r ymgynghoriad oedd trefnu Cynhadledd #Cymraeg2050, a gynhaliwyd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ar 4 Hydref 2016. Roedd y digwyddiad yn gyfle i ystyried ein gweledigaeth mewn cyd-destun rhyngwladol, gyda'r nod o roi llwyfan i arbenigwyr, ymarferwyr a rhanddeiliaid gyfnewid gwybodaeth am wahanol agweddau ar gynllunio ieithyddol ac amlieithrwydd yn Ewrop.

Traddodwyd y prif anerchiad gan Patxi Bazterrikka, Is-Weinidog y Fasgeg, a soniodd am y gwaith a wnaed gan Gymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg dros y degawdau diwethaf i gynyddu nifer y siaradwyr Basgeg.

Gan ganolbwyntio ar faterion yn nes at adref, cafwyd trafodaeth panel gyda Menna Jones (Antur Waunfawr), Laura McAllister (Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru), ac Iwan Roberts (Hacio) ar sut i fynd ati i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Parhaodd yr ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft am 3 mis, gan ddod i ben ar 31 Hydref 2016. Ym mis Ionawr 2017 cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru.¹ Ar sail yr ymatebion hyn, aethom ati i ddatblygu'r polisi y tu ôl i'r strategaeth derfynol, gyda'r bwriad o gyhoeddi'r ddogfen derfynol, ar y cyd â rhaglen weithredu o gamau tymor byr, yn ystod haf 2017.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Roedd y dull hirdymor o gynllunio ar gyfer y Gymraeg a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r strategaeth newydd yn cyd-fynd â'r hyn a welwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nod y ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gan helpu'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf i feddwl yn y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a dilyn dull gweithredu cyson.

Ym mis Tachwedd 2016 mabwysiadwyd amcanion lleisiant gan Lywodraeth Cymru a gynlluniwyd i sicrhau bod y sefydliad yn cyfrannu i'r eithaf at gyrraedd pob un o'r nodau llesiant a restrir yn y Ddeddf. Un o'r nodau hyn yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Fel rhan o'r amcanion a fabwysiadwyd, nodwyd y canlynol fel amcan rhif 5:

¹ https://consultations.gov.wales/sites/default/files/consultation_doc_files/170110-consultation-responses-cy.pdf

- ‘Creu’r amodau i bobl allu dysgu a defnyddio’r Gymraeg gyda’u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gwaith’.

Mae’r amcanion oll yn dangos sut y byddwn yn defnyddio’r Ddeddf er mwyn gweithredu ein rhaglen lywodraethu heriol: *Symud Cymru Ymlaen*. Byddwn yn monitro ein cynnydd wrth wreiddio’r Ddeddf yng ngweithdrefnau’r llywodraeth dros y cyfnod nesaf.

Ymchwil

Rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017 parhaodd y gwaith ymchwil ac ystadegol i gefnogi datblygu polisi mewn perthynas â’r Gymraeg. Rhoddwyd sylw penodol i drosglwyddo’r Gymraeg mewn teuluoedd, gyda’r nod o wella ein dealltwriaeth o rai o’r ffactorau sy’n gallu dylanwadu ar y defnydd o’r Gymraeg ymhlith rhieni a’u plant ifanc. Yn ogystal â hynny, cwblhawyd cam cyntaf y gwaith o gasglu gwybodaeth ynghylch sut mae’r ddarpariaeth addysg drochi yn cael ei chynllunio a’i chyflwyno yn y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru.

Gwelwyd cynnydd yn y gwaith o brif-ffrydio’r Gymraeg mewn ymchwil, gyda hyn yn cyfrannu at ein nod deublyg o geisio sicrhau bod dulliau ymchwil yn rhoi ystyriaeth briodol i faterion yn ymwneud â’r Gymraeg, a chryfhau’r sylfaen dystiolaeth mewn perthynas â’r Gymraeg ar draws y meysydd polisi y mae’r Llywodraeth yn gyfrifol amdanynt.

Bu’r cyfnod o baratoi at y strategaeth iaith a fyddai’n disodli *iaith fyw: iaith fyw* hefyd yn gyfle i atgyfnerthu’r cyswllt rhwng tystiolaeth a gosod amcanion polisi. Yn y cyd-destun hwnnw, cyflawnwyd gwaith ystadegol manwl i ddatblygu’r amcanestyniad a’r taflywybr sydd bellach yn sail i’n huchelgais o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Gwasanaethau Cymraeg: Rhaglen dreigl creu Rheoliadau Safonau’r Gymraeg

Yn 2016-17 gwelwyd camau’n cael eu cymryd yng nghyd-destun gweithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac ychwanegu at y cyrff sy’n dod o dan y drefn safonau.

Yn dilyn y llwyddiannau a gofnodwyd yn yr adroddiad blaenorol (2015-16) o greu 4 set o Rheoliadau Safonau’r Gymraeg ar gyfer 80 o gyrff, ymledwyd y gyfundrefn safonau ymhellach yn ystod 2016-17. Daeth Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 6) 2017 i rym ym mis Chwefror 2017 i greu safonau ar gyfer cyrff yn y sector addysg. Erbyn hyn, gall Comisiynydd y Gymraeg osod dyletswyddau yn ymwneud â’r Gymraeg trwy’r gyfundrefn safonau ar 107 o gyrff.

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd roedd y gwaith o baratoi Rheoliadau ar gyfer cyrff yn y sector iechyd yn parhau, gyda’r nod o gyflwyno’r Rheoliadau hynny yn ystod 2017-18.

Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r Safonau

Daeth y safonau a osodwyd ar Lywodraeth Cymru i rym ar 30 Mawrth 2016, gan ddisodli'r Cynllun Iaith Gymraeg statudol oedd ar waith cyn hynny. Yn ystod y flwyddyn gyntaf o'u gweithredu, gwelwyd newidiadau mewn gweithdrefnau ac ymddygiad ar draws y sefydliad.

Mae'r sefydliad wedi ymateb yn gadarnhaol i egwyddor y cynnig rhagweithiol drwy gofnodi dewisiadau ieithyddol pobl wrth ymwneud â nhw, a chyfeirio cwsmeriaid at ein gwasanaethau dwyieithog. Hefyd, mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn y sefydliad ein bod yn cynnig gwell gwasanaeth i gwsmeriaid wrth gydymffurfio â'r safonau, ac yn rhoi cyfleoedd pwysig i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â Llywodraeth Cymru.

Mae'r gofyniad arnom i asesu effaith ein penderfyniadau polisi ar y Gymraeg, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i beidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn golygu bod yn rhaid i swyddogion ystyried effeithiau ehangach eu penderfyniadau ar yr iaith, ac ar ei defnydd gan bobl a chymunedau. Drwy wneud defnydd o'n fframwaith i asesu effaith ar y Gymraeg yn ganolog wrth ddatblygu polisiâu'r Llywodraeth, mae cyfle i ystyried effaith ein penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

Cynllunio'r Gymraeg mewn addysg

Yn ystod y cyfnod adrodd fe wnaethom barhau i gydweithio gydag awdurdodau lleol er mwyn cynllunio'r modd y maent yn darparu ar gyfer y Gymraeg yn y system addysg.

Un o brif dasgau'r flwyddyn yn y maes oedd cryfhau'r broses gynllunio ar gyfer darpariaeth statudol cyfrwng Gymraeg drwy'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Y nod yn hyn o beth oedd sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGAau) ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Gymraeg (Cymru) 2013.

I'r perwyl hwnnw, yn sgil derbyn drafft o gynlluniau 2017-20, penderfynodd cyn Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes na fyddai'n derbyn cynlluniau'r awdurdodau lleol am nad oeddent yn arwain at dwf sylweddol mewn addysg cyfrwng Gymraeg. O ganlyniad i hynny, penodwyd Aled Roberts i gynnal adolygiad brys o CSGA pob sir, i adolygu'r broses o lunio a chymeradwyo'r cynlluniau, a chynnig argymhellion ar sut i wella'r broses honno.

Mae'r CSGAau hefyd yn gofyn i awdurdodau lleol osod allan sut maent yn hwyluso mynediad hwyr i addysg cyfrwng Gymraeg ac yn cyflawni targedau perthnasol. Yn ystod 2016-17 parhaodd yr Awdurdodau Lleol i nodi eu trefniadau ar gyfer mynediad hwyr yn eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20.

Y Gymraeg yn y cwricwlwm

Roedd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg yn cydnabod nad addysg cyfrwng Gymraeg yn unig fyddai'n rhoi sgiliau Gymraeg i'n plant a'n pobl ifanc. Roedd cefnogi dysgwyr o bob cefndir ieithyddol i ddatblygu eu sgiliau Gymraeg yn rhan hanfodol o'r

Strategaeth, gyda natur y ddarpariaeth yn effeithio ar faint o Gymraeg y byddai dysgwyr yn ei chaffael.

Mae datblygu cwricwlwm newydd a fydd yn ysbrydoli dysgwyr i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn hanfodol i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae angen i ni hefyd sicrhau y gallant fesur eu cynnydd ar hyd y daith er mwyn parhau i'w hysgogi, a sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu yn seiliedig ar ddealltwriaeth athrawon o'r addysgeg fwyaf effeithiol o safbwynt caffael iaith.

Yn ystod 2016-17, aeth y gwaith o ddatblygu continwmm iaith Gymraeg fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu rhagddo, mewn partneriaeth â chonsortia rhanbarthol, sy'n cynnwys ysgolion arloesi a rhanddeiliaid allweddol. Mae'r gwaith yn parhau, ac yn unol â'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd, bydd y cwricwlwm drafft ar gael ar gyfer cynnig adborth yn ei gylch erbyn Ebrill 2019 a'r cwricwlwm terfynol ar gael erbyn mis Ionawr 2020.

Y Blynyddoedd Cynnar

Er mwyn gwella'r modd y caiff darpariaeth Gymraeg ei chynllunio mewn addysg a gofal plant cyn-ysgol, parhaodd yr Awdurdodau Lleol i nodi eu cynlluniau ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg yn y sectorau gofal plant a blynyddoedd cynnar, er mwyn hwyluso'r dilyniant rhwng grwpiau meithrin ac addysg statudol cyfrwng Gymraeg. At hynny, fel y nodir ym mhennod 1 uchod, ym mis Ionawr 2017 lansiodd rhaglen newydd Cynnydd ar gyfer Llwyddiant yn y sector gofal plant, lle mae targedau penodol ar gyfer darparu prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Mudiad Meithrin hefyd yn hollbwysig yn y sector gofal plant / blynyddoedd cynnar, a chyllidir y mudiad i gyfrannu at wella cynllunio ac ehangu'r ddarpariaeth, gan ystyried modelau gweithredu eraill. Fel rhan o'u cefnogaeth i ddatblygu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, rhoddodd Mudiad Meithrin drefniadau newydd yn eu lle yn ystod 2016-17 er mwyn casglu data manylach am broffil oedran plant mewn cylchoedd meithrin, yn ogystal â chapasiti'r cylchoedd hynny. Mae'r wybodaeth hon yn adeiladu ar ddata sydd eisoes yn cael ei chasglu gan y Mudiad Meithrin a'i rhannu ag awdurdodau lleol er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu a diweddarau'r cynlluniau.

Cynllunio defnydd tir a datblygiadau mawr

Rydym wedi parhau i bwysu a mesur pob cam ymarferol ar gyfer atgyfnerthu'r Gymraeg yn y system gynllunio. Roedd hyn yn cynnwys gweithredu darpariaethau Deddf Cynllunio 2015 drwy gefnogi a chydweithio ag awdurdodau cynllunio lleol, a gweithio ar welliannau i Nodyn Cyngor Technegol 20 (TAN 20): Cynllunio a'r Gymraeg.

Mae'r Adran Gynllunio yn bwriadu cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o TAN 20 yn ystod 2017. Mae'r TAN yn rhoi'r pwyslais ar bwysigrwydd cynnal asesiadau effaith ieithyddol fel rhan o'r broses o lunio Cynlluniau Datblygu Lleol. Wrth ystyried datblygiadau annisgwyl y tu hwnt i sgôp y Cynlluniau Datblygu Lleol, ac yn dilyn y gwaith i asesu effaith datblygiad Wylfa Newydd ar y Gymraeg, adnabuwyd bod y

cyngor a'r canllawiau presennol, sef canllawiau *Cymru - Y Ffordd Ymlaen 2005*, wedi dyddio.

Mewn partneriaeth ag adran Ynni Cymru ac yna'r adran Gynllunio felly, aethpwyd ati i gomisiynu Fframwaith Asesu Risg i'r Gymraeg a Chanllawiau ar gyfer datblygiadau mawr. Pwrpas y Fframwaith hwn yw rhoi arweiniad pellach i Awdurdodau Cynllunio a Datblygwyr ar sut i Asesu Risg a Buddion i'r Gymraeg ar gyfer cynlluniau mawr, annisgwyl. Mae'n Fframwaith systematig ar sut i asesu effeithiau ar y defnydd o'r Gymraeg a sut i adnabod a rheoli risg a buddion.

Canolfannau a gofodau dysgu

Un o'r prif weithredoedd o dan *Bwrw Mlaen* oedd cefnogi datblygiad canolfannau a gofodau dysgu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg neu drochi'r Gymraeg. Rydym yn parhau i gynnal perthynas agos â'r Canolfannau a dderbyniodd grant yn 2014/15 (Canolfannau Llanelli, Môn, Wrecsam, Caerfyrddin) a 2015/2016 (Canolfannau Caerdydd, Pontardawe, Bodedern, Tregaron, Bangor, Aberteifi).

Rydym wedi gofyn i bob un lunio Adroddiad Mesur Effaith y Ganolfan, 18 mis ar ôl i'r ganolfan agor ei drysau, er mwyn cloriannu'r hyn a gyflawnwyd gyda chymorth y cyllid grant, ac asesu sut, ac i ba raddau, y mae'r prosiect wedi cyfrannu at gyflawni nodau ac amcanion strategol *laith fyw: iaith byw a Bwrw Mlaen*.

Mae is-Adran y Gymraeg hefyd yn cadeirio cyfarfodydd rhwydwaith y Canolfannau laith, sy'n dod ynghyd dwy i dair gwaith y flwyddyn i rannu arfer da a pharhau i annog ein partneriaid sy'n hybu'r Gymraeg yn y gymuned i gydweithio â'r canolfannau.

Penderfynwyd yn ddiweddar ymestyn y grŵp i gynnwys y Canolfannau laith eraill oedd eisoes wedi eu sefydlu cyn y grant, a chafwyd budd mawr o rannu syniadau ac arferion da. Rydym hefyd yn sicrhau bod y Canolfannau yn cydweithio'n agos â'n partneriaid grant cymunedol ac yn monitro cynnydd y cydweithio hwnnw drwy brosesau monitro grant y Mentrau laith, yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol ac eraill.

3. Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

Bwriad Llywodraeth Cymru yw adeiladu ar weithgareddau presennol er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Yn *Bwrw Mlaen* ymrwymwyd i fuddsoddi cyllid refeniw ychwanegol gwerth £1.2 miliwn dros ddwy flynedd, gan roi blaenoriaeth i'r ardaloedd lle ceir canran uchel o siaradwyr Cymraeg ac ardaloedd eraill o bwysigrwydd strategol. Roeddem hefyd yn cydnabod bod angen cynyddu nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg drwy'r system addysg a'r system hyfforddi er mwyn ategu'r gwaith hwn, gyda'r her o droi'r dysgwyr hyn yn siaradwyr.

Pwysleisir yn *Bwrw Mlaen* bwysigrwydd ffyniant y Gymraeg yn y gymuned ar gyfer dyfodol yr iaith a chymunedau ill dau, gan ganolbwyntio ar gefnogi cymunedau lle mae canran uchel o siaradwyr Cymraeg, a datblygu'r iaith lle mae canrannau is o siaradwyr ond lle gwelwyd cynnydd. Buddsoddiwyd £1.2 miliwn ychwanegol dros ddwy flynedd gyntaf *Bwrw Mlaen* at y diben hwn, a'r bwriad yn 2016-17 oedd adeiladu ar hynny. Cwmpasir yn yr adran hon adroddiad ar feysydd strategol y teulu (1), plant a phobl ifanc (2), a'r gymuned (3) a nodir yn Strategaeth y Gymraeg *laith fyw: iaith byw*.

Y Gymraeg yn y teulu

Fel rhan o ddatblygu rhaglen genedlaethol i gefnogi teuluoedd i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg, rydym wedi bod yn gweithredu cynllun Cymraeg i Blant i helpu rhieni newydd i gyflwyno'r Gymraeg yn y teulu.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cafodd negeseuon am addysg cyfrwng Cymraeg, y cyfleoedd y mae dwyieithrwydd yn eu cynnig, a'r gefnogaeth sydd ar gael, eu cynnwys mewn cardiau sgan, ffolderi mamolaeth a Chofnod Iechyd Personol y Plentyn (neu'r 'llyfr coch') a roddir i bob darpar-riant.

Cafodd cefnogaeth ddwys ei chynnig hefyd drwy raglen Cymraeg i Blant mewn 13 awdurdod lleol. Roedd y gefnogaeth hon yn cynnwys sesiynau stori a chân, tylino babi ac ioga babi. Nod y sesiynau yw cefnogi rhieni a darpar-rieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant, ac egluro mwy am y gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Cynhaliwyd dros 1,400 o sesiynau yn ystod y flwyddyn, ac fe'u mynychwyd gan 15,000 o blant a rhieni.

Fel y nodwyd uchod, cynhaliwyd ymchwil i drosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd, gyda'r nod o wella ein dealltwriaeth o rai o'r ffactorau sy'n gallu dylanwadu ar ddefnydd y Gymraeg ymhlith rhieni a'u plant ifanc.

Fel rhan o'r cynllun grant Hybu a Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg bu nifer o fudiadau, gan gynnwys yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol, a'r Mentrau Iaith yn trefnu gweithgareddau amrywiol gan annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd.

Plant a phobl ifanc

Yn ystod 2016-17, er mwyn adeiladu ar y gwaith a ddigwyddodd ar draws y gogledd yn 2015-16, datblygwyd rhaglen genedlaethol i fynd i'r afael â defnydd iaith anffurfiol plant a phobl ifanc. Ariannwyd y rhaglen drwy'r pedwar consortiwm rhanbarthol ac mae'n cynnwys y Siarter Iaith mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, a'r Prosiect Cefnogi Arferion Iaith mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Bellach mae dros 200 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru yn gweithredu'r Siarter Iaith, sy'n fframwaith clir i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant mewn cyd-destun cymdeithasol. Gall ysgolion ennill gwobrau efydd, arian ac aur yn dilyn cyfnodau o weithredu.

Er mwyn helpu i wreiddio Prosiect Cefnogi Arferion Iaith pobl ifanc ymhellach, yn 2016-17 rhoddwyd y prosiect ar waith mewn dros 30 o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws Cymru. Ei nod yw creu cyfleoedd i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc a'u hannog i siarad Cymraeg gyda'i gilydd, gan roi arweiniad ar sut i ddylanwadu'n gadarnhaol ar eu defnydd o'r Gymraeg. Byddwn yn adeiladu ymhellach ar y prosiect hwn dros y blynyddoedd nesaf.

Dechreuodd y gwaith o fapio'r gweithgareddau a drefnir ar gyfer plant a phobl ifanc mewn nifer o siroedd, gan arwain at greu cynllun gweithredu ar y cyd rhwng rhanddeiliaid a darparwyr gweithgareddau plant a phobl ifanc yn sirol.

Ymhlith y digwyddiadau hyrwyddo ar gyfer plant a phobl ifanc, roedd gweithgareddau a digwyddiadau drwy gyfrwng Snapchat, Periscope Cymraeg, ymgyrch C'mon Cymru, y Pethau Bychain, a Dydd Miwsig Cymru, Flashmob cân y Pethau Bychain, bws ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol a 'Combine Harvester' ar Faes B.

Cymraeg i Oedolion

Yn ystod 2016-17 parhaodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu arweiniad strategol i'r maes.

Yn dilyn proses resymoli, penodwyd 11 darparwr i gynnig cyrsiau Cymraeg i oedolion ar draws Cymru am gyfnod o hyd at 3 blynedd. Cychwynnodd y rhaglenni hyn ym mis Medi 2016.

Yn ogystal â hynny, ymgynghorodd y Ganolfan gyda rhanddeiliaid ar draws y maes fel rhan o'r broses o ddatblygu cwricwlwm newydd.

Cynhaliwyd ymgyrchoedd marchnata wedi eu targedu at garfanau a themâu penodol yn ystod y flwyddyn, a dadansoddwyd nifer y dysgwyr oedd yn cofrestru ac ymrestru yn ystod y flwyddyn er mwyn dylanwadu ar ymgyrchoedd tebyg yn y dyfodol.

Cynllun Grantiau Hybu a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg

Nod y cynllun yw ariannu sefydliadau i gynnal gweithgareddau sy'n hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg. Cyfanswm y grantiau a ddyrannwyd drwy Gynllun Grant i Hybu a Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar gyfer 2016-17 oedd **£4,065,491**.

2016-17 oedd y cyntaf mewn cylch o dair blynedd, gyda'r partneriaid canlynol yn derbyn Grantiau drwy'r Cynllun hwn:

- Clwb Ffermwyr Ifanc Cymru
- Cymdeithas Eisteddfodau Cymru
- Yr Eisteddfod Genedlaethol
- Merched y Wawr
- Y Mentrau Iaith
- Yr Urdd
- Y Papurau Bro
- Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Roedd y grantiau yn cefnogi 205 o swyddi, 54 yn llawn a 151 yn rhannol. Defnyddiwyd y cyllid gan bartneriaid grant i gynnal 20,000 o weithgareddau, gyda 900,000 o bobl yn mynychu. Gwelwyd dros 20,000 o wirfoddolwyr yn cyfrannu at weithgarwch partneriaid.

O ran gwyliau, gwnaeth:

- 140,297 o bobl fynychu'r Eisteddfod Genedlaethol yn Y Fenni
- 90,000 fynychu'r Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Fflint
- 36,500 fynychu Tafwyl

Fel rhan o'r cynllun grant Hybu a Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, bu nifer o fudiadau, gan gynnwys yr Urdd, y Ffermwyr Ifanc a'r Mentrau Iaith, yn trefnu gweithgareddau gyda'r nod o annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg.

Ym maes chwaraeon, gwelwyd gweithgareddau amrywiol a oedd yn cynnwys cyfleoedd i gymryd rhan mewn cystadlaethau o bob math, clybiau mewn gwahanol gampau, teithiau i weithgareddau a digwyddiadau chwaraeon, hyfforddiant mewn gwahanol gampau, gweithgareddau a hyfforddiant awyr agored, hyrwyddo chwaraeon eithafol drwy gyfrwng y Gymraeg, a sesiynau chwaraeon dan do.

O safbwynt cerddoriaeth, cynhaliwyd cystadleuaeth Brwydr y Bandiau, gigs, gweithdai, a chyfleodd i fandiau i berfformio mewn gwyliau a gigs ar draws Cymru. Yn ogystal gwelwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn datblygu eu gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc drwy brosiect cerddoriaeth Maes B.

Mewn perthynas â'r celfyddydau roedd cyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn cystadlaethau, clybiau, a gweithdai canu, llefaru, actio, dawnsio, canu offeryn, ffotograffiaeth a chelf. Roedd cyfleoedd mewn nifer o ardaloedd hefyd i fynychu gweithgareddau wythnosol yn ymwneud a'r Theatr a pherfformio.

Mentrau Iaith Cymru

Fel rhan o'r gwaith o ystyried dyfodol y Mentrau Iaith a thrafod yr angen i adolygu strwythurau'r Mentrau er mwyn ymateb yn effeithiol i bolisi ac anghenion cymunedau ar draws Cymru, datblygwyd dogfen fyw *Mentro Mwy*. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r hyn sydd angen ei ddatblygu mewn pedwar agwedd o'r gwaith, sef codi ansawdd a llywodraethiant, gweithredu ar y lefel ddaearyddol fwyaf addas, arloesedd, ac ariannu teg. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd y sector yn y broses o ddatblygu'r papur ymhellach.

2016 oedd blwyddyn Pencampwriaethau Pêl-droed Ewro 2016, a llwyddodd y Mentrau Iaith i gymryd mantais o agwedd iach Cymdeithas Bêl-droed Cymru at y Gymraeg drwy redeg Ymgyrch y Bêl a gyhaeddodd 100,000 o bobl ar-lein. Cafwyd llwyddiannau eraill megis Ras yr Iaith, Tafwyl, Ffiliffest a Parti Ponty.

Yn ystod misoedd olaf y flwyddyn, cynhaliwyd prosiect peilot "Gweithio gyda Busnesau Bach Lleol" a dyrannwyd £5,700 i'r Mentrau Iaith i gynnal digwyddiadau i hyrwyddo'r Gymraeg yn y sector preifat. Cynhaliwyd 13 o ddigwyddiadau megis Brecwast Busnes neu noson "Fizz a Bizz" i fusnesau, gan gynnig cyfleoedd i rwydweithio, rhannu profiadau a derbyn negeseuon am werth y Gymraeg i'w busnesau.

Cymunedol

Mae'r sefydliadau a gefnogir drwy'r grant Hybu a Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn rhan annatod o'r tirlun diwylliannol Cymraeg. Amcangyfrifir fod dros 20,000 o wirfoddolwyr yn cyfrannu at waith y sefydliadau hyn ar lawr gwlad. Maent yn cynnig bwrlwm a bywyd i'r Gymraeg o fewn cymunedau ar draws Cymru, yn ogystal â sicrhau statws uchel i'r Gymraeg a'r diwylliant mewn digwyddiadau uchel eu proffil megis yr Eisteddfod Genedlaethol, Tafwyl ac Eisteddfod yr Urdd.

Papurau Bro

Drwy'r grant i Hybu a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi Papurau Bro mewn ardaloedd ar draws Cymru. Dyrannwyd cyfanswm o £87,810 i 52 o Bapurau Bro yn 2016-17. Mae eu cylchrediad a'u dylanwad yn eang, gyda tua 37,000 o bapurau'n cael eu cynhyrchu bob mis. Gwirfoddolwyr lleol (tua 3,000 ohonynt) sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r papurau, ac maent yn rhan o wead y gymuned Gymraeg mewn ardaloedd ar draws Cymru.

Mae cylchrediad y papurau dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn rhyfeddol o gyson er gwaethaf llawer o heriau. Wrth i arferion newid o ran rhannu a derbyn newyddion a rhannu gwybodaeth yn sgil datblygiadau technolegol, gwelir enghreifftiau o bapurau yn symud yn raddol i blatfformau newydd ar y we. Mae grant Llywodraeth Cymru o gymorth mawr i'r Papurau Bro, ac yn gefnogaeth ariannol bwysig i'r rhwydwaith eang ac unigryw hwn.

4. Newid ymddygiad ieithyddol

Cydnabyddir yn Bwrw Mlaen yr angen i newid y ffordd rydym yn siarad ac yn teimlo am yr iaith, a bod angen i'n dulliau fod yn fwy cadarnhaol er mwyn sicrhau newid patrymau ymddygiad ieithyddol. Yn rhy aml mae'r ddadl gyhoeddus ynghylch y Gymraeg yn canolbwyntio ar yr heriau, y syniad bod yr iaith yn cilio, a'r rhwystrau tuag at newid – yn lle hynny mae angen meithrin ymdeimlad o gyfle, a helpu pobl i ddewis defnyddio'r Gymraeg bob dydd. I helpu gyda'r newid diwylliant hwn, rydym wedi lansio brand newydd Cymraeg er mwyn datblygu negeseuon cyson ar draws ein mentrau polisi o ran y Gymraeg, a byddwn yn dysgu o dechnegau marchnata cymdeithasol a newid ymddygiad priodol eraill, a'u defnyddio er lles y Gymraeg.

Mae *Bwrw Mlaen* hefyd yn nodi mai ein nod fel Llywodraeth yw cyrraedd sefyllfa lle bydd defnyddio'r Gymraeg yn elfen normal ym mywyd bob dydd, fel bod cynnyrch a gwasanaethau'n cael eu cynnig yn rhagweithiol yn Gymraeg, a lle bydd pobl yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r nod hwn yn berthnasol i bob un o'r meysydd uchod, yn ogystal â phob un o feysydd strategol *laith fyw: laith byw*.

Busnesau

Fel y nodwyd ym mhennod gyntaf yr Adroddiad hwn, rhan greiddiol o'r Pecyn Busnes yw'r egwyddor y gall cael busnesau i wneud y pethau bychain yn Gymraeg godi proffil yr iaith a chynyddu'r defnydd ohoni yn y gweithle a'r gymuned. Cynhaliwyd cynllun peilot gyda swyddogion o 10 Menter Iaith ar draws Cymru, gan ddechrau gyda sesiynau hyfforddi gyda'r swyddogion er mwyn eu grymuso gyda'r ffeithiau a thechnegau addas i ddylanwadu ar ddefnydd meicro-fusnesau o'r Gymraeg.

Roedd y peilot yn cymryd gwaelodlin o ddefnydd y busnes o'r Gymraeg. Ar sail hyn, datblygwyd cyfres o ymyraethau i'w treialu gyda'r busnes. Ymhlith y rhain, roedd gwaith ar 'ciws' isymwybodol ac amlwg gyda'r nod o greu amgylchedd a fyddai'n annog cwsmeriaid i ddefnyddio'r Gymraeg (er enghraifft, arwyddion 'Ar Agor' / 'Ar Gau', arwyddion 'Croeso', deunyddiau "Iaith Gwaith"). Roedd hefyd yn ystyried agweddau'r unigolion o fewn y busnes at y Gymraeg, ac yn awgrymu technegau syml i feithrin hyder staff o fewn busnes i ddefnyddio'r iaith gyda chwsmeriaid.

O ddadansoddi adborth y swyddogion fu'n treialu'r gwahanol ymyraethau, daeth i'r amlwg fod cael mynediad at gyfieithiadau byr, cywir yn gymhelliant mawr i berchnogion busnesau bach ddefnyddio'r Gymraeg. O ganlyniad, yn y flwyddyn nesaf, bydd Llinell Gymorth yn cael ei sefydlu a'i threialu i ddarparu cyfieithiadau o'r fath er mwyn rhoi hwb i'r dirwedd gweledol ieithyddol.

Yn sgil y peilot, bydd cynllun cenedlaethol yn cael ei ddatblygu i dreialu'r ymyraeth ieithyddol ymhellach ar draws Cymru. Mae'r cam nesaf yn y datblygiad yn cynnwys

system mesur effaith manwl fydd yn cynorthwyo i roi darlun cyson i ni o ddefnydd busnesau bach o'r Gymraeg ar draws Cymru.

Mae newid ymddygiad yn rhan greiddiol o'n holl waith, ac fel y nodwyd sawl gwaith uchod, rydym wedi comisiynu ymchwil ar drosglwyddo iaith rhwng rhieni a phlant er mwyn rhoi sylfaen gadarn i'n gwaith o ran cynyddu nifer y teuluoedd lle defnyddir y Gymraeg. Bydd meddu ar y ddealltwriaeth hon o ymddygiad ieithyddol ar lefel feicro yn hwyluso'n cynlluniau at y dyfodol.

Dydd Miwsig Cymru

Un elfen o'r strategaeth yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym mywyd bob dydd pobl. Nod yr ymgyrch Dydd Miwsig Cymru (DMC) yw cyflwyno cerddoriaeth Gymraeg i bobl newydd ac annog siaradwyr Cymraeg i gefnogi'r sin gerddoriaeth Gymraeg.

Hon oedd ail flwyddyn cynnal Dydd Miwsig Cymru, a'n nod oedd gweithio i adeiladu ar lwyddiant y flwyddyn flaenorol. Crëwyd ymgyrch ddigidol i gynyddu'r niferoedd sy'n ymgysylltu â'r Gymraeg drwy'r cyfryngau cymdeithasol, i gyrraedd cynulleidfao o 2,000,000 (gan gynnwys y defnydd o'r hashnod #DyddMiwsigCymru) a chael 1,000 i glicio at wefan 'Cymraeg'. Cyhaliwyd dros 12 digwyddiad ar draws Cymru gyda 5,000 o bobl yn eu mynychu, a nifer fawr o'r ystadegau yn cynnwys siaradwyr newydd.

Cymraeg i Blant

Mae cynllun Cymraeg i Blant yn defnyddio ymyraethau uniongyrchol gyda rhieni er mwyn eu darbwylllo o fudd trosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu ac i roi eu plant trwy addysg Gymraeg. Yn ystod y flwyddyn gyntaf hon, aethpwyd ati i ddatblygu cyfres o negeseuon cyson a sicrhau bod y negeseuon yma'n cael eu prif ffrydio mewn deunyddiau perthnasol (megis Llyfr Coch i famau beichiog a phhecyn Bookstart sy'n cael ei ddosbarthu i bob rhiant yng Nghymru). Mae'r gwaith yma o brif ffrydio a sicrhau fod y negesydd cywir yn rhannu'r negeseuon wedi parhau yn ail flwyddyn y cynllun.

Y Siarter iaith

Crëwyd brand newydd ar gyfer y Siarter iaith, yn ogystal â dau gymeriad newydd, sef Seren a Sbarc, i godi proffil y cynllun. Crëwyd adnoddau hefyd i gefnogi athrawon ac awdurdodau lleol i gyflawni'r prosiect, yn ogystal ag adnoddau ar gyfer y plant. O ganlyniad i hyn, mae'r prosiect yn tyfu a'r sylw iddo ar rwydweithiau cymdeithasol yn cynyddu, gyda rhieni yn defnyddio'r cymeriadau yn y cartref i gyflwyno'r Gymraeg i blant.

Rhwydweithiau Cymdeithasol

Mae sianeli Cymraeg yn fyw ac yn weithredol ar blatfformau megis Facebook, Twitter, Instagram, Snapchat ac YouTube. Mae'r sianeli hyn yn hwyluso trafod, yn rhannu syniadau ac yn ymgysylltu gyda nifer o gynulleidfaoedd gwahanol drwy sianeli 'Cymraeg i Blant' a 'Cymraeg'. Mae nifer y dilynwyr yn cynyddu rhwng 200 a 500 y mis. Nod y sianeli yw rhannu negeseuon strategol am ein gwaith mewn ffordd greadigol a hwylus sy'n creu perthynas glos rhwng gwaith y Llywodraeth a'r gynulleidfa.

Adnoddau Digidol

O safbwynt adnoddau a gwasanaethau digidol, mae llawer o'r gwaith a grybwyllir ym Mhennod 1, uchod, â'r nod o sicrhau ei bod yn hawdd defnyddio technoleg a gwasanaethau drwy'r Gymraeg, ac nad oes unrhyw rwystrau sy'n golygu ei bod yn anoddach defnyddio'r Gymraeg na'r Saesneg. Yn hynny o beth, y gobaith yw y bydd datblygiadau ar dechnolegau fel Macsen a Linguaskin yn talu ar eu canfed.

Rhodddwyd lle blaenllaw yn yr Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 i'r elfen hon o hwyluso defnydd o'r Gymraeg a newid ymddygiad, o dan y pennawd "Normaleiddio". Roedd y rhan hon o'r strategaeth ddrafft yn cynnwys cynigion i:

- Creu sefyllfa lle mae'n gwbl arferol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hymwneud â'r wladwriaeth a sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru.
- Cynyddu hyder pobl i ddefnyddio'r Gymraeg fel eu bod yn fwy tebygol o ddechrau sgysiau yn Gymraeg a dewis defnyddio gwasanaethau Cymraeg.
- Sicrhau bod y Gymraeg yn rhan amlycach o'r amgylchedd gweledol-clywedol fel bod modd gweld bod ganddi statws swyddogol a'i bod yn rhan annatod o dirwedd ieithyddol y wlad.
- Gwella ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n effeithio ar arferion ieithyddol pobl ar bwytiau allweddol yn eu bywydau drwy gynnal ymchwil hydredol hirdymor.

Yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad aethpwyd ati i adeiladu ymhellach ar hyn wrth baratoi'r strategaeth derfynol, a lansiwyd yn ystod haf 2017.

Atodiad 1: Dangosyddion Strategaeth y Gymraeg²

Maes strategol 1: Y teulu

Dangosydd: Canran y plant pum mlwydd oed (ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) sy'n siarad Cymraeg yn rhugl gartref (a)

Blwyddyn (b)	Canran
2004	7.0
2005	6.1
2006	6.0
2007	6.1
2008	6.5
2009	6.4
2010	6.4
2011	6.2
2012	7.0
2013	6.4
2014	6.8
2015	6.7
2016	6.5
2017	6.2

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

(a) Aseiad y rhiant / gofalwr. Cestglir gwybodaeth gan yr ysgol.

(b) Ym mis Ionawr bob blwyddyn.

² Yn seiliedig ar feysydd strategol *laith fyw: laith byw*

Dangosydd: Canran y bobl sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg

Blwyddyn (a)	Cyfrifiad	Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
2001	16.3	23.6
2002		22.8
2003		22.4
2004		21.4
2005		21.1
2006		21.3
2007		20.5
2008		20.5
2009		20.4
2010		20.5
2011	14.6	21.1
2012		20.6
2013		21.3
2014		21.7
2015		21.7
2016		22.4

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 a 2011, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

(a) Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi ail-bwysoli'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth i ystyried yr amcan estyniadau diweddaraf o'r boblogaeth. Felly, mae pob adolygiad o 2004 wedi cael ei adolygu.

Mae'r data yn cynrychioli blwyddyn galendr.

Maes strategol 2: Plant a phobl ifanc

Y nifer sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg a drefnir ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru

Urdd Gobaith Cymru

	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Nifer plant a phobl ifanc yn derbyn cyfleoedd i ddatblygu sgiliau newydd yng ngweithgareddau'r Urdd	81,750	87,733	289,432	416,285*	448,169*
Nifer plant a phobl ifanc yn cymdeithasu tu allan i'r ysgol - yng ngwersylloedd yr Urdd	34,343	38,407	38,407	44,947	47,251

Ffynhonnell: Urdd Gobaith Cymru

* O 2015-16 bu newid yn y ffordd o gasglu niferoedd, y ffigur yn cynrychioli ymwneud holl unigolion gyda'r Urdd

Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru

	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Nifer pobl ifanc yn cymryd rhan yn rhaglen gweithgareddau blynyddol y CFFI ar lefel sirol	4,870	4,245	5,929	8,710	17,911
Nifer mynychwyr gweithgareddau dwyieithog yn y Pentref Ieuenctid yn ystod Sioe Frenhinol Cymru	18,000	14,000	14,000*	14,000*	7,000

Ffynhonnell: Ffermwyr Ifanc Cymru

* amcan

Mentrau Iaith

	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Nifer gweithgareddau a drefnir i blant a phobl ifanc	529	602	1,145	934	1,967
Nifer mynychwyr gweithgareddau a drefnir i blant a phobl ifanc	12,770	14,873	17,257	31,931	41,759

Ffynhonnell: Mentrau Iaith

Eisteddfod Genedlaethol Cymru

	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Nifer pobl ifanc wedi cymryd rhan mewn gweithdai a gweithgareddau.	700	1,398	1,398	1,300	1,600
Nifer mynychwyr Gweithgareddau Maes B.	4,207	6,873	5,500	9,470	7,719

Ffynhonnell: Eisteddfod Genedlaethol Cymru

Maes strategol 3: Y gymuned

Y nifer sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg, gan gynnwys rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru

Urdd Gobaith Cymru

	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Nifer teuluoedd yn mynychu penwythnos teulu	104	110	-	-	-
Nifer o deuluoedd yn mynychu gweithgareddau penodol i deuluoedd			1,007	1,166	1,888
Nifer cynlluniau chwarae i'r teulu a ddatblygir o'r newydd	28	60	d/b	d/b	d/b
Nifer yn mynychu Eisteddfod yr Urdd	96,473	80,000	86,000	88,000	90,316

Ffynhonnell: Urdd Gobaith Cymru

Merched y Wawr

	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Nifer mynychwyr gweithgareddau blynyddol a gydlynir	3,000	3,000	5,040	64,387*	100,000

Ffynhonnell: Merched y Wawr (amcangyfrif)

*Newid yn y ffordd o gyfri mynychwyr. Y ffigur yn adlewyrchu holl ymwneud unigolion â'r mudiad.

Mentrau Iaith

	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Nifer gweithgareddau sydd wedi eu cynnal yn gymunedol	673	619	689	1,048	1,299
Nifer mynychwyr gweithgareddau cymunedol	*	11,840	35,862**	57,620**	91,062**
Nifer sgysiau 1:1 sydd wedi eu cynnal i hyrwyddo manteision y Gymraeg fel rhan o weithgareddau a drefnir	10,434	8,393	9,279	8,737	6,536

Ffynhonnell: Mentrau Iaith

*Nid yw'r data ar gael. Nid oedd y Mentrau yn adrodd ar niferoedd mynychwyr yn ystod y cyfnod hwn

**Menter Iaith Caerdydd yn cynnwys ffigur Tafwyl

Mudiad Ffermwyr Ifanc

	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Nifer pobl sy'n mynychu gweithgareddau a drefnir gan Fudiad y Ffermwyr Ifanc yn gymunedol	10,140	10,500*	9,628	18,020	39,146

Ffynhonnell: Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru

* amcan

Eisteddfod Genedlaethol Cymru

	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Nifer yn mynychu Eisteddfod Genedlaethol Cymru	138,767	153,606	143,502	150,776	140,297

Ffynhonnell: Eisteddfod Genedlaethol Cymru

Maes strategol 4 – Y gweithle

Dangosydd: Nifer y cyrff y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â safonau gweithredu yn ymwneud â'r Gymraeg sy'n ceisio hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Nid oes modd adrodd ar y dangosydd hwn nes bod y safonau gweithredu yn ymwneud â'r Gymraeg wedi eu gosod ar y cyrff perthnasol.

Dangosydd: Canran staff Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

Defnydd o'r Gymraeg gan staff Llywodraeth Cymru yn y gweithle, yn ôl gallu iaith Gymraeg, 2013 (a)

	<u>Siarad Cymraeg yn rhugl</u>	<u>Siarad cryn dipyn o Gymraeg</u>	<u>Siarad ychydig o Gymraeg</u>	<u>Gallu dweud ychydig eiriau yn y Gymraeg</u>
Defnyddio'r Gymraeg bob amser	8.2	0.4	0.5	0.7
Defnyddio mwy o Gymraeg nag o Saesneg	15.2	0.8	0.0	0.0
Defnyddio tua'r un faint o Gymraeg ag o Saesneg	22.4	4.2	0.2	0.2
Defnyddio mwy o Saesneg nag o Gymraeg	46.3	55.3	14.9	4.5
Defnyddio Saesneg bob amser	7.9	39.3	84.5	94.6
Cyfanswm	100.0	100.0	100.0	100.0

Ffynhonnell: Arolwg Pobl Llywodraeth Cymru

(a)Cwestiwn a ofynnwyd: Ym mha iaith ydych chi'n gwneud eich gwaith? Dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio eich defnydd o iaith orau.

Defnydd o'r Gymraeg gan staff Llywodraeth Cymru yn y gweithle, yn ôl gallu iaith Gymraeg, 2014 (a)

	<u>Siarad Cymraeg yn rhugl</u>	<u>Siarad cryn dipyn o Gymraeg</u>	<u>Siarad ychydig o Gymraeg</u>	<u>Gallu dweud ychydig eiriau yn y Gymraeg</u>
Defnyddio'r Gymraeg bob amser	5.9	0.0	0.0	0.4
Defnyddio mwy o Gymraeg nag o Saesneg	16.4	0.4	0.0	0.0
Defnyddio tua'r un faint o Gymraeg ag o Saesneg	21.8	2.8	0.0	0.0
Defnyddio mwy o Saesneg nag o Gymraeg	49.0	56.6	17.0	5.4
Defnyddio Saesneg bob amser	6.9	40.2	83.0	94.2
Cyfanswm	100.0	100.0	100.0	100.0

Ffynhonnell: Arolwg Pobl Llywodraeth Cymru

(a)cwestiwn a ofynnwyd: Ym mha iaith ydych chi'n gwneud eich gwaith? Dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio eich defnydd o iaith orau.

Defnydd o'r Gymraeg gan staff Llywodraeth Cymru yn y gweithle, yn ôl gallu iaith Gymraeg, 2016 (a)

	<u>Siarad Cymraeg yn rhugl</u>	<u>Siarad cryn dipyn o Gymraeg</u>	<u>Siarad ychydig o Gymraeg</u>	<u>Gallu dweud ychydig eiriau yn y Gymraeg</u>
Defnyddio'r Gymraeg bob amser	5.7	0.0	0.2	0.8
Defnyddio mwy o Gymraeg nag o Saesneg	13.3	0.0	0.0	0.1
Defnyddio tua'r un faint o Gymraeg ag o Saesneg	18.4	3.1	0.0	0.1
Defnyddio mwy o Saesneg nag o Gymraeg	60.3	75.0	30.3	6.7
<i>Defnyddio mwy o Saesneg nag o Gymraeg - defnyddio'r Gymraeg bob dydd</i>	38.6	19.9	4.4	1.2
<i>Defnyddio mwy o Saesneg nag o Gymraeg - defnyddio'r Gymraeg bob wythnos</i>	11.4	25.0	6.8	0.9
<i>Defnyddio mwy o Saesneg nag o Gymraeg - defnyddio'r Gymraeg yn llai aml na phob wythnos</i>	10.2	30.1	19.0	4.6
Defnyddio Saesneg bob amser	2.3	21.9	69.6	92.3
Cyfanswm	100.0	100.0	100.0	100.0

Ffynhonnell: Arolwg Pobl Llywodraeth Cymru

(a) Cwestiwn a ofynnwyd: Ym mha iaith ydych chi'n gwneud eich gwaith? Dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio eich defnydd o iaith orau.

Yn 2016, newidiwyd y categorïau ateb fel bod modd i'r rhai sydd yn defnyddio mwy o Saesneg nag o Gymraeg nodi a oeddent yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd, bob wythnos neu'n llai aml na hynny. Cyfunir y categorïau newydd hyn yn y tabl uchod er mwyn gallu cymharu â chanlyniadau arolygon blaenorol.

Mae data Arolwg Pobl 2016 yn cynrychioli cyfnod adrodd 2015-16, gan i'r Arolwg gael ei gynnal ym mis Ionawr 2016.

Defnydd o'r Gymraeg gan staff Llywodraeth Cymru yn y gweithle, yn ôl gallu iaith Gymraeg, 2017 (a)

	<u>Siarad Cymraeg yn rhugl</u>	<u>Siarad cryn dipyn o Gymraeg</u>	<u>Siarad ychydig o Gymraeg</u>	<u>Gallu dweud ychydig eiriau yn y Gymraeg</u>
Defnyddio'r Gymraeg bob amser	7.7	0.3	0.4	0.4
Defnyddio mwy o Gymraeg nag o Saesneg	14.3	0.3	0.0	0.0
Defnyddio tua'r un faint o Gymraeg ag o Saesneg	17.9	3.5	0.2	0.0
Defnyddio mwy o Saesneg nag o Gymraeg	57.3	74.5	35.4	10.9
<i>Defnyddio mwy o Saesneg nag o Gymraeg - defnyddio'r Gymraeg bob dydd</i>	<i>37.7</i>	<i>21.0</i>	<i>5.1</i>	<i>2.7</i>
<i>Defnyddio mwy o Saesneg nag o Gymraeg - defnyddio'r Gymraeg bob wythnos</i>	<i>10.6</i>	<i>25.2</i>	<i>8.8</i>	<i>0.8</i>
<i>Defnyddio mwy o Saesneg nag o Gymraeg - defnyddio'r Gymraeg yn llai aml na phob wythnos</i>	<i>9.0</i>	<i>28.3</i>	<i>21.5</i>	<i>7.4</i>
Defnyddio Saesneg bob amser	2.9	21.3	64.1	88.7
Cyfanswm	100.0	100.0	100.0	100.0

Ffynhonnell: Arolwg Pobl Llywodraeth Cymru

(a) Cwestiwn a ofynnwyd: Ym mha iaith ydych chi'n gwneud eich gwaith? Dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio eich defnydd o iaith orau.

Yn 2016, newidiwyd y categorïau ateb fel bod modd i'r rhai sydd yn defnyddio mwy o Saesneg nag o Gymraeg nodi a oeddent yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd, bob wythnos neu'n llai aml na hynny. Cyfunir y categorïau newydd hyn yn y tabl uchod er mwyn gallu cymharu â chanlyniadau arolygon blaenorol.

Maes strategol 5: Gwasanaethau Cymraeg

Dangosydd: Y defnydd o wahanol wasanaethau a ddarperir yn Gymraeg

Trafodion ar-lein DVLA trwy gyfrwng y Gymraeg (a)

<u>Blwyddyn</u>	<u>Trwydded gyrru ar-lein</u>	<u>Trwydded cerbydau electronig (b)</u>
2004-05	..	24
2005-06	..	179
2006-07	..	1,152
2007-08	..	1,839
2008-09	..	1,890
2009-10	..	2,238
2010-11	287	2,636
2011-12	442	3,130
2012-13	456	3,549
2013-14	417	3,971
2014-15 (c)	664	6,431
2015-16	877	7,823
2016-17	~	~

Ffynhonnell: DVLA

(a) Mae'r data hyn bellach yn cael eu cyflwyno yn ôl blwyddyn ariannol yn hytrach na blwyddyn galendr.

Mae'r data ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan.

(b) Mae trwydded cerbydau electronig yn cynnwys gwasanaeth ar-lein ar gyfer cwsmeriaid sydd am drethu eu cerbydau neu'n datgan eu bod oddi ar y ffordd.

(c) Yn 2014-15 gostyngodd y DVLA ffioedd ar-lein ar gyfer trwyddedau gyrru a diddymwyd y ddisg dreth.

.. Data ddim ar gael

~ Nid oedd y data ar gael adeg cyhoeddi.

Prawf theori a phrofion ymarferol trwy gyfrwng y Gymraeg (a)

<u>Blwyddyn</u>	<u>Prawf theori</u>			<u>Prawf ymarferol</u>		
	<u>Cymraeg</u>	<u>Saesneg</u>	<u>% Cymraeg</u>	<u>Cymraeg</u>	<u>Saesneg</u>	<u>% Cymraeg</u>
2007-08	88	61,770	0.14	243	54,890	0.44
2008-09	88	53,046	0.17	364	47,666	0.76
2009-10	69	53,850	0.13	246	64,867	0.38
2010-11	81	53,878	0.15	236	31,068	0.75
2011-12	81	53,750	0.15	444	48,355	0.91
2012-13	59	40,790	0.14	241	38,602	0.62
2013-14	78	46,309	0.17	217	28,418	0.76
2014-15	78	68,669	0.11	306	39,356	0.77
2015-16 (b)	51	60,221	0.08	225	49,372	0.45
2016-17	58	81,051	0.07	891	73,355	1.20

Ffynhonnell: Asiantaeth Safonau Gyrru

(a) Dim ond yn cynnwys canolfannau prawf yng Nghymru heblaw am brofion theori yn Gymraeg sy'n cynnwys profion theori yn Gymraeg mewn rhai canolfannau prawf yn Lloegr.

(b) Mae profion ymarferol Saesneg ar gyfer 2015-16 yn cynnwys holl ganolfannau prawf yng Nghymru.

Cyn 2015-16 mae profion ymarferol Saesneg ond yn cynnwys canolfannau prawf lle mae o leiaf un prawf ymarferol wedi ei gynnal yn Gymraeg.

Galw lechyd Cymru (NHS Direct)

Blwyddyn	Ymweliadau â Gwefan NHS			Galwadau ffôn (a)			Galwadau ffôn wedi eu hateb (b)		
	Cymraeg	Cyfanswm	% Cymraeg	Cymraeg	Cyfanswm	% Cymraeg	Cymraeg	Cyfanswm	% Cymraeg
2006-07	7,740	391,133	2.0	6,477	352,651	1.8
2007-08	9,129	356,716	2.6	7,630	327,236	2.3
2008-09	8,674	342,264	2.5	7,524	314,687	2.4
2009-10	5,383	641,295	0.8	9,811	478,889	2.0	7,739	404,674	1.9
2010-11	3,546	549,668	0.6	10,141	368,634	2.8	8,053	309,007	2.6
2011-12 (c)	2,981	963,767	0.3	5,292	325,337	1.6	3,159	259,908	1.2
2012-13	3,293	2,019,580	0.2	4,627	347,067	1.3	3,014	241,570	1.2
2013-14 (d)	3,584	3,515,196	0.1	1,708	316,915	0.5	1,689	215,936	0.8
2014-15	3,483	4,545,133	0.1	1,635	301,198	0.5	1,621	225,667	0.7
2015-16	3,302	4,031,292	0.1	2,021	327,323	0.6	1,991	228,568	0.9
2016-17	6,419	3,262,979	0.2	2,581	304,244	0.8	2,545	245,136	1.0

Ffynhonnell: Galw lechyd Cymru

(a) Nifer y galwadau lle mae'r galwr wedi gwrandio ar yr holl neges groeso ac wedi aros ar y llinell am ateb.

(b) Nifer y galwadau a atebwyd gan Galw lechyd Cymru.

(c) O 1 Ebrill 2011 ymlaen nid oedd Galw lechyd Cymru yn gyfrifol am y gwasanaeth y tu allan i oriau meddygon teulu yng Ngwynedd ac Ynys Môn (tua 6,000 o alwadau bob chwarter).

(d) Ar ôl cyflwyno system teleffon newydd, mae'n ymddangos nad yw pob galwad ffôn Cymraeg yn cael ei nodi fel hyn.

Maes strategol 6: Y seilwaith

Nifer y llyfrau, e-lyfrau a chylchgronau Cymraeg (heb gynnwys addysg) a werthir

	<u>2012-13</u>	<u>2013-14</u>	<u>2014-15</u>	<u>2015-16</u>	<u>2016-17</u>
Nifer o lyfrau Cymraeg a werthwyd trwy Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau yn (ac eithrio gwerslyfrau)	368,642	366,578	341,123	366,305	~
Nifer o lyfrau Cymraeg a gyhoeddwyd (ac eithrio gwerslyfrau plant) (a)	399	363	367	367	~
Nifer o e-lyfrau Cymraeg a dwyieithog a gyhoeddwyd ar gyfer oedolion (b)	69	50 (r)	62	20	~

Ffynhonnell: Cyngor Llyfrau Cymru

(a) Mae'r nifer o lyfrau Cymraeg a gyhoeddwyd (ac eithrio gwerslyfrau plant) ar sail blwyddyn galendr.

(b) Mae'r nifer o e-lyfrau Cymraeg a dwyieithog a gyhoeddwyd ar gyfer oedolion ar sail blwyddyn galendr.

Daeth y grant i annog cyhoeddi e-lyfrau i ben yn ystod 2015-16.

(r) Wedi ei ddiwygio. Mae'r ffigur sy'n ymddangos yn adroddiad blynyddol 2013-14 yn cynnwys e-lyfrau Cymraeg a dwyieithog a gyhoeddwyd ar gyfer plant.

~ Nid oedd y data ar gael adeg cyhoeddi.

Maes strategol 6: Y seilwaith

Y nifer sy'n darllen Golwg 360

<u>Cyfnod</u>	<u>Ymweliadau</u> <u>(a)</u>	<u>Tudalennau</u> <u>(b)</u>
Gorffennaf - Medi 2012	6,965	37,427
Hydref - Rhagfyr 2012	7,302	33,871
Ionawr - Mawrth 2013	7,240	39,122
Ebrill - Mehefin 2013	8,009	40,642
Gorffennaf - Medi 2013	7,621	..
Hydref - Rhagfyr 2013	7,712	69,161
Ionawr - Mawrth 2014	9,119	78,245
Ebrill - Mehefin 2014	8,042	84,003
Gorffennaf - Medi 2014	8,013	77,446
Hydref - Rhagfyr 2014	8,839	82,486
Ionawr - Mawrth 2015	8,944	83,410
Ebrill - Mehefin 2015	8,608	61,056
Gorffennaf - Medi 2015	7,945	144,288
Hydref - Rhagfyr 2015	8,289	102,059
Ionawr - Mawrth 2016	7,872	95,114
Ebrill - Mehefin 2016	8,835	118,297
Gorffennaf - Medi 2016	9,086	76,131
Hydref - Rhagfyr 2016	8,788	93,514
Ionawr - Mawrth 2017	9,536	105,866

Ffynhonnell: Cyngor Llyfrau Cymru

(a) Ymweliadau dyddiol unigol.

(b) Mabwysiadwyd system gyfri newydd 'SmarterStats 8.4' ym mis Mehefin sy'n cyfri mewn ffordd mwy dibynadwy. Eglura hyn y newid yn yr ystadegau ond yn anffodus ni chynhyrchwyd ystadegau tudalennau yn y cyfnod Gorffennaf i Fedi 2013.

.. Data ddim ar gael.

Dangosydd ffigyrau dosbarthu misol ar gyfer y papurau bro*

Papur Bro	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Clebran	780	780	780	710	710
Clochdar	350	350	350	332	250
Clonc	950	950	880	880	794
CwmNi (Tua'r Goleuni)	400	400	330	344	360
Cwlwm	950	950	950	850	800
Dail Dysynni	1,000	1,000	850	850	750
Dan y Landsker	220	220	150	177	120
Eco'r Wyddfa	2,000	2,000	1,800	1,800	1,800
Glo Môn	600	600	600	600	600
Goriad	1,050	1,050	850	800	800
Llais	800	800	800	780	790
Llais Aeron	500	500	450	420	550
Llais Ardudwy	750	750	750	750	730
Llais Ogwan	1,450	1,450	1,420	1,360	1,360
Lleu	1,400	1,400	1,200	1,200	1,400
Nene	700	700	700	650	650
Papur Dre	1,300	1,300	1,300	900	1,300
Papur Fama	580	580	550	550	550
Papur Menai	1,200	1,200	1,200	1150	1,150
Papur Pawb	500	500	400	400	400
Papur y Cwm	600	600	600	500	500
Pethe Penllyn	500	500	375	375	375
Plu'r Gweunydd	750	750	750	750	750
Seren Hafren	475	475	400	475	475
Tafod Elai	700	700	700	650	650
Wilia	400	400	400	400	400
Y Barcud	900	900	900	750	700
Y Bigwn	400	400	450	400	400
Y Cardi Bach	1,000	1,000	950	860	860
Y Clawdd	500	500	420	450	420
Y Ddolen	800	800	720	720	650
Y Dinesydd	700	700	650	650	650
Y Dwrgi					200
Y Ffynnon	1,500	1,500	1,700	1700	1,700
Y Gambo	1,250	1,250	1,150	1250	1,150
Y Garthen	496	496	450	355	340
Y Glannau	800	800	800	770	750
Y Gloran	600	600	500	450	400
Y Glorian	1,400	1,400	1,400	1,300	1,300
Y Llien Gwyn	600	600	400	400	350

Y Lloffwr	950	950	950	950	950
Y Pentan	1,100	1,100	1,100	1,000	1,100
Y Rhwyd	1,000	1,000	980	950	870
Y Tincer	900	900	800	800	800
Yr Angor (A)	600	600	600	600	431
Yr Angor (L)	300	300	300	300	300
Yr Arwydd	1,100	1,100	1,100	1,000	1,000
Yr Hogwr	450	450	450	450	450
Yr Odyn	1,100	1,100	1,075	1,050	1,050
Yr Wylan	1,100	1,100	800	700	700
Yr Ysgub	700	700	700	700	700
Cyfanswm	41,151	41,151	38,880**	37,208***	37,235

Ffynhonnell: Casglwyd yr wybodaeth gan Lywodraeth Cymru

**amcangyfrifon*

*** Cafodd y ffigur hwn ei ddiwygio oherwydd gwall hanesyddol yn y data*

**** Y ffigurau hyn yn dangos cywiriad o ffigur y llynedd o ganlyniad i'r ffaith bod Y Fan a'r Lle yn adrodd ar nifer bob chwarter yn hytrach nag yn fisol - gweler isod am ffigurau'r Fan a'r Lle.*

Dangosydd ffigurau dosbarthu chwarterol ar gyfer y papurau bro*

Papur Bro	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Y Fan a'r Lle		10,000	7,400	7,400	8,000

Ffynhonnell: Casglwyd yr wybodaeth gan Lywodraeth Cymru

**amcangyfrifon*

Dangosyddion: Ffigurau gwyllo a gwrando ar gyfer S4C a Radio Cymru

S4C

	<u>2010-11</u>	<u>2011-12</u>	<u>2012-13</u>	<u>2013-14</u>	<u>2014-15</u>	<u>2015-16</u>	<u>2016-17</u>
Cyrhaeddiad 3 munud wythnosol (mewn miloedd)							
Ar draws y DU	602	613	586	551	605	629	614
Yng Nghymru	461	476	443	383	360	343	347
Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru	205	223	212	187	173	161	173
Cyrhaeddiad 15 munud misol (mewn miloedd)							
Ar draws y DU	800	765	724	631	604	572	633
Yng Nghymru	610	623	590	509	479	463	485
Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru	252	272	261	228	213	199	222

Ffynhonnell: S4C

Radio Cymru

<u>Blwyddyn</u>	<u>Poblogaeth (miloedd)</u>	<u>Nifer y gwrandawyr (miloedd)</u>	<u>Canran</u>
2010-11	2,519	158	6.3
2011-12	2,524	137	5.4
2012-13	2,533	131	5.2
2013-14	2,581	143	5.5
2014-15	2,583	116	4.5
2015-16	2,583	108	4.2
2016-17	2,600	110	4.2

Ffynhonnell: RAJAR

Dangosydd: Pa mor gyffredin yw gwefannau poblogaidd sydd wedi datblygu rhyngwynebau Cymraeg.

Caiff cynnydd ar y dangosydd hwn ei adrodd yn ansoddol.

Dangosydd: Pa mor gyffredin yw banciau, cwmnïau ffonau symudol ac eraill sy'n darparu rhyngwynebau Cymraeg.

Caiff cynnydd ar y dangosydd hwn ei adrodd yn ansoddol.

Atodiad 2: Targedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg³

Deilliant 1			
Mwy o blant 7 oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.			
Dangosydd iaith fyw: iaith byw	Llinell sylfaen	Targedau	
		2009	2015
Canran y disgyblion ym Mlwyddyn 2 a asesir yn Gymraeg (iaith gyntaf)	21%	25%	30%

Dangosydd Deilliant 1

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016
Nifer	6,365	6,560	6,728	7,229	7,468	7,594	7,937	7,693
Carfan	30,329	30,061	30,655	32,960	33,398	34,175	35,757	34,957
%	21.0%	21.8%	21.9%	21.9%	22.4%	22.2%	22.2%	22.0%

³ Bellach mae targedau strategaeth newydd, *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg*, wedi disodli'r targedau hyn. <http://gov.wales/topics/welshlanguage/welsh-language-strategy-and-policies/cymraeg-2050-welsh-language-strategy/?lang=cy>

Awdurdodau lleol

	2006 (Nifer)	2016 (Nifer)	2006-16 (Nifer)		2006 %	2016 %	2006-16 %
Ynys Môn	513	544	31		67.9	72.4	4.6
Gwynedd	1,209	1,233	24		95.6	98.2	2.5
Conwy	274	258	-16		24.5	23.3	-1.2
Sir Ddinbych	212	289	77		20.4	26.6	6.2
Sir y Fflint	110	118	8		6.3	6.6	0.3
Wrecsam	139	216	77		9.4	13.0	3.6
Gogledd Cymru	2,457	2,658	201		33.2	34.7	1.5
Powys	221	242	21		15.2	18.5	3.3
Ceredigion	495	464	-31		74.5	75.4	0.9
Sir Benfro	266	273	7		19.7	21.0	1.3
Sir Gaerfyrddin	919	1,089	170		50.9	56.8	5.9
Abertawe	243	401	158		10.0	15.3	5.3
Castell-nedd Port Talbot	211	258	47		14.4	16.6	2.2
De-orllewin a Chanolbarth Cymru	2,355	2,727	372		25.7	29.3	3.6
Pen-y-bont ar Ogwr	138	133	-5		8.8	8.3	-0.5
Bro Morgannwg	165	243	78		10.6	14.9	4.3
Rhondda Cynon Taf	497	538	41		18.6	18.9	0.3
Merthyr Tudful	72	81	9		11.6	11.4	-0.2
Caerdydd	428	655	227		12.3	15.5	3.1
Canolbarth y De	1,300	1,650	350		13.1	15.0	1.8
Caerffili	266	353	87		13.2	16.5	3.3
Blaenau Gwent	50	27	-23		6.6	3.5	-3.1
Torfaen	84	123	39		8.1	11.4	3.3
Sir Fynwy	32	64	32		3.5	7.1	3.6
Casnewydd	54	86	32		3.1	4.6	1.5
De-ddwyrain Cymru	486	653	167		7.5	9.7	2.1
Cymru	6,599	7,693	1,094		20.0	22.0	2.0

Deilliant 2

Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Dangosydd iaith fyw: iaith byw	Llinell sylfaen	Targedau	
	2009	2015	2020
Canran y disgyblion ym Mlwyddyn 9 a asesir yn Gymraeg (iaith gyntaf).	16%	19%	23%

Dangosydd Deilliant 2

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016
Nifer	5,594	5,550	5,862	5,787	5,668	5,540	5,638	5,517
Carfan	35,221	34,717	35,903	34,520	33,380	32,354	31,755	30,787
%	15.9%	16.0%	16.3%	16.8%	17.0%	17.1%	17.8%	17.9%

Consortia	Blwyddyn 6 2013	Blwyddyn 9 2016	BI 6-9 2013-16	BI 6-9 2012-15	BI 6-9 2011-14	BI 6-9 2010-13
Ynys Môn	511	445	-66			
Gwynedd	1,130	966	-164			
Conwy	230	214	-16			
Sir Ddinbych	234	226	-8			
Sir y Fflint	71	63	-8			
Wrecsam	126	119	-7			
Gogledd	2,302	2,033	-269	-342	-348	-346
Powys	229	176	-53			
Ceredigion	447	418	-29			
Sir Benfro	226	177	-49			
Sir Gaerfyrddin	941	808	-133			
Abertawe	251	249	-2			
Castell-nedd Port Talbot	223	191	-32			
De-orllewin a Chanolbarth	2,317	2,019	-298	-334	-385	-430
Pen-y-bont ar Ogwr	91	77	-14			
Bro Morgannwg	120	118	-2			
Rhondda Cynon Taf	439	442	3			
Merthyr Tudful	48	0	-48			
Caerdydd	440	421	-19			
Canolbarth y De	1,138	1,058	-80	-100	-61	-91
Caerffili	251	244	-7			
Blaenau Gwent	31	0	-31			
Torfaen	69	162	93			
Sir Fynwy	23	0	-23			
Casnewydd	59	0	-59			
De-ddwyrain	433	406	-27	-37	-21	-22
Cymru	6,193	5,517	-676	-826	-821	-890

Deilliant 3

Mwy o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

Dangosyddion iaith fyw: iaith byw	Llinell sylfaen	Targedau	
		2009	2015
3a. Canran y disgyblion a gofrestrir ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) a gofrestrir ar gyfer o leiaf ddau gymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg.	80.9%	84%	88%
3b. Canran y disgyblion a gofrestrir ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) a gofrestrir ar gyfer o leiaf bum cymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg.	58.4%	62%	68%

*ac eithrio Cymraeg iaith gyntaf a Llenyddiaeth Gymraeg; mae TGAU Cymhwysol a Gwyddoniaeth ddwbl yn cyfrif fel dau gymhwyster; mae cyrsiau byr yn cyfrif fel un cymhwyster; yn seiliedig ar ddata CBAC yn unig.

Dangosydd	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016
3a. O leiaf dau bwnc drwy gyfrwng y Gymraeg	79.5%	81.0%	85.3%	81.6%	79.3%	80.3	83.1
3b. O leiaf bum pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg	59.7%	62.2%	64.9%	55.5%	52.5%	54.0	57.6

Deilliant 4

Mwy o fyfyrwyr 16–19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.

Dangosyddion <i>iaith fyw: iaith byw</i>	Gwaelodlin	Targedau	
		2015 CC + D**	2020 CC + D**
Gweithgareddau addysg myfyrwyr yn ôl cyfrwng addysgu (LA26)*	2007/08 CC+D**		
Ysgolion	14.9%	18%	20%
Sefydliadau addysg bellach	4.7%	7%	10%
Dysgu seiliedig ar waith	1.4%	2.5%	4%

* Ac eithrio addysg iaith Gymraeg

** CC = Cyfrwng Cymraeg, D = Dwyieithog

Gweithgareddau addysg myfyrwyr yn ôl cyfrwng addysgu (LA26)	2009/10*	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15**	2015/16**
	CC+D	CC+D	CC+D	CC+D	CC+D	CC+D	CC+D
Ysgolion	17.1%	21.0%	17.4%	20.1%	20.5%	20.4%	20.3%
Sefydliadau addysg bellach	6.2%	5.7%	6.7%	8.4%	8.5%	7.2%	7.0%
Dysgu seiliedig ar waith	1.5%	3.0%	3.9%	3.6%	3.0%	6.7%	10.0%

*Cyn 2010/11, roedd data ar gyfer dysgu seiliedig ar waith wedi'i ddarparu gan sefydliadau addysg bellach, yn cael ei gategoreiddio o dan 'Sefydliadau addysg bellach'. Ers 2010/11 mae'r data yma wedi'i gategoreiddio o dan 'Dysgu seiliedig ar waith'.

**Addaswyd diffiniad o addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ôl-16 yn y Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a daeth yn weithredol yn 2014/15. Bellach, cofnodir y cyfrwng dysgu a iaith yr asesiad ar gyfer pob unigolyn, yn hytrach na'r dosbarth cyfan lle mae'r addysgu'n digwydd. O ganlyniad gwelwyd gostyngiad o 8.5% yn 2013/14 i 7.2% yn y data ar gyfer 2014/15. Mae gweithgareddau addysg dwyieithog yn cynnwys unrhyw weithgaredd ag unrhyw faint o addysgu cyfrwng Cymraeg.

Deilliant 5 Mwy o ddysgwyr â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg.			
Dangosyddion iaith fyw: iaith byw	Gwaelodlin	Targedau	
		2009	2015
5a. Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch Iaith Gyntaf fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, ddwy flynedd yn gynharach	6.7%	7%	8%
5b. Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch Ail Iaith fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg Ail Iaith cwrs byr a chwrs llawn, ddwy flynedd yn gynharach	3.0%	3.5%	4%

2010: Dangosydd 5a – iaith gyntaf

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016
Dangosydd	6.7%	6.7%	6.8%	5.5%	5.9%	5.3%	5.5	4.9
Nifer	345	363	357	303	315	279	310	276

2010: Dangosydd 5b – Ail iaith

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016
Dangosydd	2.9%	2.4%	2.6%	2.3%	1.9%	1.8%	1.5	1.3
Nifer	593	497	542	511	434	409	363	322